Diben y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol am y math o ystyriaethau a mesurau rheoli ychwanegol a allai fod yn ofynnol er mwyn ailgychwyn a/neu barhau â gwaith ar y safle ac ar yr un pryd reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Dylid defnyddio'r ddogfen hon er mwyn ychwanegu rhagor o ystyriaethau at asesiadau risg cyfredol y mae eu hangen i adnabod y perygl sydd ynghlwm wrth COVID-19, a chofnodi'r perygl hwnnw, ac i sicrhau trefniadau cadw pellter cymdeithasol a rheoli heintiau priodol sy'n angenrheidiol er mwyn hwyluso ailgychwyn gweithgareddau ar y safle. Bydd angen cynnal asesiad risg addas a digonol cyn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau ar y safle.

**Y Cyd-destun Deddfwriaethol**

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau roi mesurau rhesymol ar waith i leihau'r risg o ddod i gyswllt â'r coronafeirws mewn gweithleoedd a mangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd: https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gymryd camau rhesymol lle bo hynny'n ymarferol. Mae hyn yn cynnwys hunanynysu a chadw'n glir oddi wrth bobl eraill os ydych yn dangos symptomau, gweithio o gartref os yw hynny'n bosib, cadw pellter, codi sgriniau rhwng pobl lle bo hynny'n addas neu wisgo cyfarpar diogelu personol os yw'r canllawiau'n dweud bod hynny'n angenrheidiol neu os yw asesiad risg lleol yn gofyn am hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cardiau gweithredu mesurau rhesymol ar gyfer busnesau a sefydliadau. Mae'r rhain yn rhoi cyngor i fusnesau a sefydliadau ynglŷn â'r mesurau rhesymol y gallant eu rhoi ar waith er mwyn lleihau'r risg sydd ynghlwm wrth y coronafeirws. Cliciwch ar y ddolen hon i weld yr adnoddau hyn: https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws.

**Ystyriaethau Cyffredinol**

Dylid dilyn yr egwyddorion canlynol ar gyfer holl weithgareddau neu swyddogaethau'r Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol:

- Dylai pob asesiad risg gynnwys COVID-19 fel perygl, neu dylid cael Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau COVID-19 atodol er mwyn ychwanegu at yr asesiadau risg sydd eisoes yn bodoli.
- Dylid darllen pob asesiad risg lleol ochr yn ochr ag Asesiad Risg COVID-19 y Brifysgol: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#asesiad-risg-covid-y-brifysgol.
- Dylid annog staff i barhau i weithio o gartref lle bo hynny'n bosib, a dylent fod yn gallu parhau i gyflawni busnes y Brifysgol ar yr un pryd. Dylid gwneud pob ymdrech, pryd bynnag y bo modd, i leihau ymwneud a chyswllt rhwng unigolion yn ystod eu cyfnod ar y safle.
- Efallai y bydd angen addasu sut mae gweithgaredd yn cael ei gynnal neu sut mae gwaith yn cael ei strwythuro, ynghyd â chynllun ardaloedd gwaith, er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar unrhyw gyswllt anorfod rhwng unigolion.
- Dylid ystyried defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol fel yr ateb olaf un pan nad yw cyflwyno mesurau rheoli eraill yn lliniaru'r risgiau cysylltiedig yn llwyr.
- Gall cyflwyno mesurau rheoli sy'n galluogi cadw pellter cymdeithasol effeithiol, h.y. o leiaf 2 fetr rhwng pobl, arwain at risgiau ychwanegol yn sgil gweithio ar eich pen eich hun, a rhaid mynd i'r afael â hynny hefyd mewn asesiadau risg lleol.

- Bydd disgwyl i bob gweithgaredd gydymffurfio â chanllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â gwisgo gorchuddion wyneb: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#gorchuddion-wyneb.
- Cyflwyno mesurau rheoli sy'n hwyluso'r gwaith o leihau lledaeniad yr haint ar arwynebeddau neu fannau cyffwrdd yn effeithiol gan ddefnyddio cynnyrch glanhau a ddarperir gan y Brifysgol.
- Cewch ddarllen am Wasanaethau Glanhau ar y Campws a Chyfrifoldebau'r Cwsmer drwy fynd i: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#cyfundrefnau-glanhau. Dylid cynnwys trefniadau glanhau ardaloedd a/neu wrthrychau y mae'r Adran/Defnyddiwr yn gyfrifol amdanynt yn yr Asesiad Risg Gweithgareddau perthnasol.

**Mesurau Rheoli Posib**

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi gwybodaeth am y math o fesurau rheoli y dylai Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol eu hystyried er mwyn lliniaru'r risg o drosglwyddo COVID-19 pan fyddant yn cynnal asesiadau risg lleol, a hynny'n unol â'r math o weithgaredd a'i natur.

**i. Gofodau Swyddfa Cynllun Agored / â Sawl Defnyddiwr**

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Lleihau neu gyfyngu ar y nifer o bobl sy'n gweithio yn yr ardal ar unrhyw adeg (h.y. cynyddu'r gofod rhwng pobl trwy leihau'r nifer o bobl sy'n gweithio yn yr ardal).
- Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar y nifer o bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau.
- Lleihau'r cylchdroi rhwng dyletswyddau a lleoliadau, a lleihau symud trwy annog pobl i beidio â gwneud teithiau diangen o fewn adeiladau a safleoedd.
- Annog pobl i gadw 2 fetr ar wahân lle bo modd. Os ydych dan do, ac os nad oes modd cadw 2 fetr oddi wrth bobl eraill am gyfnodau hir (15 munud neu ragor), dylid ystyried mesurau lliniaru eraill.
- Adolygu cynlluniau ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd, gan gynnwys aildrefnu seddi a byrddau er mwyn cadw pellter a lleihau ymwneud wyneb yn wyneb (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio facilities@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn).
- Dim ond pan nad oes modd symud gweithfannau ymhellach ar wahân, trefnu i bobl weithio ochr yn ochr neu gan wynebu oddi wrth ei gilydd yn hytrach nag wyneb yn wyneb, neu ddefnyddio sgriniau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio cahstaff@aber.ac.uk i drefnu cael sgrin Perspex).
- Ceisiwch osgoi defnyddio desgiau a mannau a ddefnyddir gan sawl person gwahanol (desgiau 'poeth'). Os oes angen defnyddio desgiau ac ardaloedd a ddefnyddir gan sawl person gwahanol, dylid sicrhau bod trefniadau glanhau priodol ar waith a bod cynnyrch glanhau ar gael er mwyn i bobl allu glanhau'r mannau gwaith cyn ac ar ôl iddynt gael eu defnyddio.
- Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sy'n wag yn sgil gweithio o bell.
- Agor ffenestri a drysau yn aml er mwyn annog awyru, lle bo modd.
- Rhannu staff yn dimau neu'n grwpiau shifft, a phennu bod y timau neu'r grwpiau shifft hyn yn rhai sefydlog, fel bod unrhyw gyswllt na ellir ei osgoi yn digwydd rhwng yr un bobl.

- Dilyn y wybodaeth a'r mesurau rheoli a nodir yng nghanllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â defnyddio swyddfeydd: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#defnydd-swyddfeydd.
- Gwisgo gorchuddion wyneb mewn swyddfeydd a rennir a mannau cyffredin, yn unol â chanllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â defnyddio gorchuddion wyneb: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#gorchuddion-wyneb.

## ii. Cyswllt wyneb yn wyneb (neu o fewn 2 fetr) rhwng yr unigolion

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Annog pobl i gadw 2 fetr ar wahân lle bo modd. Os ydych dan do, ac os nad oes modd cadw 2 fetr oddi wrth bobl eraill am gyfnodau hir (15 munud neu ragor), dylid ystyried mesurau lliniaru eraill.
- Adolygu cynlluniau ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio facilities@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn).
- Dim ond pan nad oes modd symud gweithfannau ymhellach ar wahân, trefnu i bobl weithio ochr yn ochr neu gan wynebu oddi wrth ei gilydd yn hytrach nag wyneb yn wyneb, neu ddefnyddio sgriniau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd.
- Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sydd yn wag yn sgil gweithio o bell.
- Gosod sgriniau i ddiogelu staff mewn derbynfeydd neu ardaloedd tebyg (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio cahstaff@aber.ac.uk i drefnu hyn).
- Pan fydd gwrthrychau yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol o'r naill berson i'r llall, megis cyflenwadau swyddfa, ystyried ffyrdd o gael gwared â chyswllt uniongyrchol, megis defnyddio mannau gadael neu ardaloedd trosglwyddo.
- Glynu wrth y wybodaeth a'r mesurau rheoli a nodir yng nghanllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#cynnal-cyfarfodydd.
- Agor ffenestri a drysau yn aml er mwyn annog awyru, lle bo modd.

## iii. System Giwio er mwyn Cyrraedd neu Adael y Gweithgaredd/Swyddogaeth

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar y nifer o bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau.
- Annog pobl i gadw 2 fetr ar wahân lle bo modd. Os ydych dan do, ac os nad oes modd cadw 2 fetr oddi wrth bobl eraill am gyfnodau hir (15 munud neu ragor), dylid ystyried mesurau lliniaru eraill.
- Adolygu cynlluniau ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio facilities@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn).
- Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sydd yn wag yn sgil gweithio o bell.

- Gosod sgriniau i ddiogelu staff mewn derbynfeydd neu ardaloedd tebyg (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio cahstaff@aber.ac.uk i drefnu hyn).
- Pan fydd gwrthrychau yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol o'r naill berson i'r llall, megis cyflenwadau swyddfa, ystyried ffyrdd o gael gwared â chyswllt uniongyrchol, megis defnyddio mannau gadael neu ardaloedd trosglwyddo.

**iv. <u>Cyfarfodydd Grŵp na ellir eu cynnal o bell</u>**

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Defnyddio adnoddau gweithio o bell er mwyn osgoi cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bo modd, e.e. Microsoft Teams, Skype, ac ati.
- Lle nad oes modd cynnal cyfarfodydd rhithwir, ystyried hwyluso cyfarfodydd mewn ardaloedd awyr agored, ac annog pobl i gadw 2 fetr ar wahân lle bo modd.
- Os nad oes modd cynnal cyfarfodydd o bell, cadw'r nifer o bobl y mae angen iddynt fod yn bresennol mor isel â phosibl, a chadw pellter o 2 fetr o leiaf ar bob adeg.
- Glynu wrth y wybodaeth a'r mesurau rheoli a nodir yng nghanllawiau'r Brifysgol sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#cynnal-cyfarfodydd.
- Cadw cofnod o fanylion cyswllt pawb am o leiaf 21 diwrnod rhag ofn y bydd angen y wybodaeth hon ar wasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru.

**v. <u>Staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu sydd mewn mwy o berygl o'r coronafeirws.</u>**

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Dylai'r holl staff yr ystyrir eu bod yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu sydd mewn mwy o berygl o'r coronafeirws weithio o gartref os cynghorir iddynt wneud hynny yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Ystyried ailddyrannu gweithgareddau y mae'n rhaid eu cyflawni ar y safle i staff na chânt eu hystyried yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu nad ydynt mewn mwy o berygl o'r coronafeirws.
- Os oes rhaid i rywun yr ystyrir ei fod yn eithriadol o agored i niwed, neu sydd mewn mwy o berygl o'r coronafeirws, ddod i'r safle, rhaid i'r trefniadau fod yn ddigon cadarn i sicrhau bod mynediad yn cael ei gyfyngu gymaint â phosibl, nad oes dim ymwneud rhwng unigolion ac y gellir cadw o leiaf 2 fetr oddi wrth bobl eraill yn ystod y cyfnod pan fydd yn cael mynediad.
- Cewch ragor o fanylion am y categorïau hyn yma:
    - Eithriadol o agored i niwed yn glinigol: https://llyw.cymru/canllawiau-ar-warchod-ac-amddiffyn-pobl-ddiffinnir-ar-sail-feddygol-fel-rhai-eithriadol-o-agored-i-html.
    - Mewn mwy o beryg o'r coronafeirws: https://llyw.cymru/unigolion-sydd-mewn-mwy-o-berygl-or-coronafeirws.

**vi. <u>Ardaloedd a ddefnyddir gan sawl grŵp e.e. labordai, stiwdios, ceginau ac ati.</u>**

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Lleihau neu gyfyngu ar y nifer o bobl sy'n gweithio yn yr ardal ar unrhyw adeg (h.y. cynyddu'r gofod rhwng pobl trwy leihau'r nifer o bobl sy'n gweithio yn yr ardal).
- Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar y nifer o bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau.
- Lleihau'r cylchdroi rhwng dyletswyddau a lleoliadau, a lleihau symud trwy annog pobl i beidio â gwneud teithiau diangen o fewn adeiladau a safleoedd.
- Cyfyngu mynediad i rai ardaloedd, gan roi ystyriaeth benodol i ardaloedd lle na ellir cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Annog pobl i gadw 2 fetr ar wahân lle bo modd. Os ydych dan do, ac os nad oes modd cadw 2 fetr oddi wrth bobl eraill am gyfnodau hir (15 munud neu ragor), dylid ystyried mesurau lliniaru eraill. Adolygu cynlluniau ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio facilities@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn).
- Dim ond pan nad oes modd symud gweithfannau ymhellach ar wahân, trefnu i bobl weithio ochr yn ochr neu gan wynebu oddi wrth ei gilydd yn hytrach nag wyneb yn wyneb, neu ddefnyddio sgriniau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd drwy e-bostio cahstaff@aber.ac.uk i drefnu cael sgrin Perspex).
- Ceisiwch osgoi defnyddio desgiau a mannau a ddefnyddir gan sawl person gwahanol (desgiau 'poeth'). Os oes angen defnyddio desgiau ac ardaloedd a ddefnyddir gan sawl person gwahanol, dylid sicrhau bod trefniadau glanhau priodol ar waith a bod cynnyrch glanhau ar gael er mwyn i bobl allu glanhau'r ardaloedd gwaith cyn ac ar ôl iddynt gael eu defnyddio.
- Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sydd yn wag yn sgil gweithio o bell.
- Agor ffenestri a drysau yn aml er mwyn annog awyru, lle bo modd.
- Rhannu staff yn dimau neu'n grwpiau shifft, a phennu bod y timau neu'r grwpiau shifft hyn yn rhai sefydlog, fel bod unrhyw gyswllt na ellir ei osgoi yn digwydd rhwng yr un bobl.

**vii. <u>Teithio (Domestig), gan gynnwys Defnyddio Cerbydau a Thrafnidiaeth Gyhoeddus</u>**

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Rhaid i'r holl deithio sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol gael ei gymeradwyo yn unol â gofynion Polisi Teithio'r Brifysgol.
- Lleihau teithio nad yw'n hanfodol trwy ystyried opsiynau o bell yn gyntaf.
- Neilltuo cerbydau i unigolion penodol ar gyfer y gweithgaredd ar ei hyd, er mwyn osgoi rhannu cerbydau.
- Gweithdrefnau ar gyfer glannau cyfarpar neu beiriannau a rennir cyn ac ar ôl eu defnyddio bob tro, gyda chynnyrch sy'n effeithiol yn erbyn COVID-19.
- Lleihau'r nifer o deithwyr sy'n cael eu cludo yng ngherbydau'r Brifysgol.
- Os nad oes modd cael un person yn y cerbyd yn unig, cludo teithiwr yn y sedd gefn yn hytrach na sedd flaen y cerbyd, a glynu wrth yr holl fesurau rheoli a nodwyd yn asesiad risg y Brifysgol ar gyfer rhannu cerbydau: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/#rhannu-cerbydau.

- Lleihau cymaint â phosibl ar y nifer o bobl sy'n teithio gyda'i gilydd mewn unrhyw gerbyd, defnyddio partneriaid teithio sefydlog, cynyddu'r awyru os oes modd ac osgoi eistedd wyneb yn wyneb.
- Cadw cofnod o fanylion cyswllt pawb sydd wedi rhannu cerbyd am o leiaf 21 diwrnod rhag ofn y bydd angen y wybodaeth hon ar wasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru.

### viii. <u>Teithio (Dramor)</u>

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Rhaid i'r holl deithio sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol gael ei gymeradwyo yn unol â gofynion Polisi Teithio'r Brifysgol.
- Lleihau teithio nad yw'n hanfodol trwy ystyried opsiynau o bell neu rithiol yn gyntaf.
- Sicrhau bod y teithiwr yn gyfarwydd â rheolau Llywodraeth Cymru ar gyfer teithio rhyngwladol i ac o Gymru: https://gov.wales/rules-international-travel-and-wales-coronavirus. Bydd hyn yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, ofynion profi cyn ac ar ôl teithio, dogfennaeth orfodol megis ffurflenni lleoli teithwyr a thystiolaeth o statws brechu, ac unrhyw ofynion cwarantin neu hunan-ynysu.
- Sicrhau bod y teithiwr yn gyfarwydd â'r Swyddfa Dramor, Cymanwlad a Datblygu ac yn gyfarwydd â'r cyngor teithio tramor ar gyfer y gwledydd neu'r rhanbarthau y bwriedir ymweld â hwy: https://www.gov.uk/foreign-travel-advice. Bydd hyn yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, ofynion profi cyn ac ar ôl teithio, dogfennaeth orfodol megis ffurflenni lleoli teithwyr a thystiolaeth o statws brechu, ac unrhyw ofynion cwarantin neu hunan-ynysu ar gyfer y gwledydd neu'r rhanbarthau hynny.
- Ymgyfarwyddo â mesurau rheoli COVID-19 a glynu wrthynt mewn porthladdoedd teithio megis meysydd awyr neu orsafoedd. Yn gyffredin, bydd gan y sefydliadau hyn dudalen we gorfforaethol bwrpasol gyda'r wybodaeth hon. Argymhellir bod teithwyr yn gwisgo masg wyneb KN-95 neu FFP2 o leiaf mewn lleoliadau gorlawn o'r fath lle gall cadw pellter corfforol fod yn anodd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar facilities@aber.ac.uk i drefnu cyflenwadau).
- Ymgyfarwyddo â mesurau rheoli COVID-19 a glynu wrthynt ar awyrennau neu ar fysiau neu drenau. Yn gyffredin, bydd gan gwmnïau awyrennau a theithio dudalen we gorfforaethol bwrpasol gyda'r wybodaeth hon. Argymhellir bod teithwyr yn gwisgo masg wyneb KN-95 neu FFP2 o leiaf mewn lleoliadau cyfyng o'r fath lle gall cadw pellter corfforol fod yn anodd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar facilities@aber.ac.uk i drefnu cyflenwadau). Gall rhai cwmnïau awyrennau hefyd bennu lleiafswm safon ar gyfer y gorchuddion wyneb y ceir eu gwisgo ar eu gwasanaethau, a gall hyn amrywio rhwng cludwyr.
- Manylion y mesurau rheoli COVID-19 a gyflwynwyd gan unrhyw ddarparwyr llety. Yn gyffredin, bydd gan ddarparwyr llety dudalen we gorfforaethol bwrpasol gyda'r wybodaeth hon.

### ix. <u>Defnyddio Cyfarpar neu Beiriannau a Rennir</u>

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Neilltuo cyfarpar neu beiriannau i unigolion penodol ar gyfer y gweithgaredd ar ei hyd, er mwyn osgoi rhannu rhwng unigolion.
- Caffael cyfarpar neu beiriannau ychwanegol fel y gellir eu dyrannu i unigolion penodol ar gyfer y gweithgaredd ar ei hyd, er mwyn osgoi rhannu rhwng unigolion.

- Pan fydd gwrthrychau yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol o'r naill berson i'r llall, megis cyflenwadau swyddfa, ystyried ffyrdd o gael gwared â chyswllt uniongyrchol, megis defnyddio mannau gadael neu ardaloedd trosglwyddo.
- Gweithdrefnau ar gyfer glannau cyfarpar neu beiriannau a rennir cyn ac ar ôl eu defnyddio bob tro, gyda chynnyrch sy'n effeithiol yn erbyn COVID-19.
- Gosod cyfarpar a rennir dan gwarantin am gyfnodau rhwng gwahanol ddefnyddwyr.

**x. <u>Gweithgaredd Awyr Agored</u>**

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Lleihau neu gyfyngu ar y nifer o bobl sy'n gweithio yn yr ardal ar unrhyw adeg (h.y. cynyddu'r gofod rhwng pobl trwy leihau'r nifer o bobl sy'n gweithio yn yr ardal).
- Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar y nifer o bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau.
- Lleihau'r cylchdroi rhwng dyletswyddau a lleoliadau, a lleihau symud trwy annog pobl i beidio â gwneud teithiau diangen rhwng safleoedd.
- Rhannu staff yn dimau neu'n grwpiau shifft, a phennu bod y timau neu'r grwpiau shifft hyn yn rhai sefydlog, fel bod unrhyw gyswllt na ellir ei osgoi yn digwydd rhwng yr un bobl.

**xi. <u>Mynediad i Bobl Eraill (e.e. myfyrwyr, aelodau o'r cyhoedd, cyflenwyr, contractwyr ac ati)</u>**

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Hwyluso mynediad i bobl eraill trwy apwyntiad ymlaen llaw yn unig.
- Cadw cofnod o fanylion cyswllt pob ymwelydd am o leiaf 21 diwrnod rhag ofn y bydd angen y wybodaeth hon ar wasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru.
- Sicrhau nad yw ymwelwyr yn dod i'r safle os oes ganddynt unrhyw symptomau o COVID-19, neu oes yw'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu wedi gofyn iddynt hunanynysu.
- Annog pob ymwelydd yn gryf i gynnal prawf llif unffordd cyn dod i'r safle.
- Cyfyngu mynediad ymwelwyr i rai ardaloedd, gan roi ystyriaeth benodol i ardaloedd lle na ellir cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Cyfyngu amseroedd ymweld i slotiau amser penodol a chyfyngu mynediad i ymwelwyr hanfodol yn unig.
- Penderfynu a ellir newid yr amserlenni ar gyfer ymweliadau gan wasanaethau hanfodol a chontractwyr er mwyn lleihau'r ymwneud a'r gorgyffwrdd rhwng pobl, er enghraifft trwy gynnal gwasanaethau yn ystod y nos.
- Ystyried ffyrdd o leihau amlder danfoniadau, er enghraifft trwy archebu niferoedd mwy yn llai aml.
- Dylid adolygu pob asesiad risg sy'n ymwneud â'r gweithgareddau a'r trefniadau gweithredu er mwyn ystyried a oes angen mesurau rheoli ychwanegol i linau'r perygl sy'n gysylltiedig â COVID-19.

**<u>Rhagor o Wybodaeth</u>**

Dyma dudalen we COVID-19 y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/.

Mae Canllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru ar gael yma: https://llyw.cymru/coronafeirws.

Dyma ragor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru i fusnesau a chyflogwyr: https://llyw.cymru/busnesau-a-chyflogwyr-coronafeirws